Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 8-20

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Astudiaeth 2 Cyhoeddi Genedigaeth Gwaredwr

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Ioan 14: 27 Rhufeiniaid 5: 1 Effesiaid 2: 17

Byddwn yn aml yn dweud wrth berthnasau a ffrindiau bod baban wedi ei eni drwy anfon cardiau sydd wedi'u hargraffu'n arbennig ar gyfer yr achlysur. Ond pan anwyd yr Arglwydd Iesu, cyhoeddwyd Ei enedigaeth mewn ffordd unigryw!



C Rhowch linell drwy'r geiriau anghywir er mwyn cwblhau'r brawddegau isod.

Pan oedd Duw eisiau dweud wrth y byd am enedigaeth Ei Fab ar y ddaear, anfonodd *frenhinoedd / angylion / offeiriaid.* Fe ddewison nhw ddweud wrth *fugeiliaid / dywysogion / gasglwyr trethi* oedd yn gofalu am eu *camelod / asynnod / defaid* yn y caeau. Roedd y dynion hyn yn *ofnus / hapus / drist* oherwydd roedd gweld angylion yn brofiad mor anarferol, ond roedd y newyddion roedden nhw ar fin ei glywed yn newyddion da iawn.

2

C Beth oedd y "newydd da am lawenydd mawr" yr oedd pawb i'w glywed?

1



Roedd gan y Baban a anwyd nifer o enwau a theitlau.

C Edrychwch ar yr adnodau canlynol i ddarganfod mwy am dri o'r enwau y soniodd yr angylion amdanynt.

GWAREDWR - Darllenwch Mathew 1: 21 ac ysgrifennwch pam fod 'Gwaredwr' yn enw addas iawn ar Ei gyfer.

2

CRIST - Ystyr 'Y Crist' yw 'Yr Un a anfonwyd'. Darllenwch Ioan 17: 3. Pwy anfonodd Crist?

2

ARGLWYDD (neu FEISTR) - Darllenwch Philipiaid 2: 9 i 11. Pwy fydd yn cyffesu bod Iesu yn Arglwydd?

2

Mae'r enwau a'r teitlau hyn yn ein helpu i gydnabod bod y Baban a anwyd y diwrnod hwnnw yn wahanol i bob un ohonom. Ydych chi'n sylweddoli bod Iesu wedi Ei anfon i fod yn Waredwr i chi? Ydych chi erioed wedi Ei gydnabod yn Arglwydd ar eich bywyd?

CHWILAIR

A	R	G	L	W	Y	DD	E	D
L	M	O	R	Y	E	R	T	I
S	D	G	O	B	G	E	N	A
DD	E	O	F	E	N	G	B	I
T	H	N	E	S	O	N	E	L
T	O	I	E	E	R	M	T	I
I	S	A	H	R	I	A	M	E
S	D	N	E	P	P	I	H	G
FF	S	T	Y	CH	LL	W	L	U
G	W	PH	N	FF	D	S	E	B

Edrychwch ar y cliwiau ac ysgrifennwch yr atebion isod ac yna rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair. Maent wedi'u cuddio i fyny, i lawr, yn ôl a blaen.

1. Pwy ddaeth i weld y Baban newydd-anedig? _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

2. Ble welson nhw'r Baban?

_ _ _ _ _ _

3. Pwy fu'n myfyrio ar y pethau hyn?

_ _ _ _

4. " _ _ _ _ _ _ _ _ _ yn y Goruchaf" oedd geiriau'r angylion.

5. Aeth yr angylion yn ôl i'r _ _ _ _ _ _ _

6. Dywedodd y dynion eu bod wedi clywed y newyddion gan Yr "_ _ _ _ _ _ _ _" (ad. 15)

6

C **Llanwch y bylchau dan ddefnyddio a, e, i, o, u, w neu y er mwyn gweld beth ddywedodd y bugeiliaid.**

G_d_ _ch _nn_ f_nd _ F_thl_h_m _ g_ _ld _r h_n s_dd _ _d_ d_g_ _dd.

1

Yn y dyddiau hynny, doedd neb yn ystyried bugeiliaid yn bobl bwysig iawn. Eto i gyd, penderfynodd Duw gyhoeddi'r newyddion am enedigaeth yr Arglwydd Iesu wrthyn nhw!

Nhw gafodd y fraint o fod y cyntaf i glywed, ac yna i ddweud wrth eraill, am enedigaeth Iesu, Gwaredwr y byd.

C **Edrychwch ar 1 Corinthiaid 1:26 i 29 ac yna, YN EICH GEIRIAU EICH HUN, nodwch i ba fath bobl y mae Duw yn datguddio Ei hun.**

2

C **Edrychwch ar Luc 2: 18 ac YN EICH GEIRIAU EICH HUN nodwch sut yr ymatebodd eraill i newyddion y bugeiliaid.**

2

Os ydym ninnau, fel y bugeiliaid, wedi credu'r newyddion da, mae'n fraint i ninnau hefyd, ei rannu gyda phobl eraill.
Os ydych chi wedi credu mai Iesu yw'r Crist, ac os ydych wedi Ei gyffesu Ef yn Arglwydd ar eich bywyd, yna byddwch chithau hefyd yn awyddus i ddweud wrth eraill Amdano!